**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KS/01558/17

Mike Hedges AC
government.committee.business@cymru.gsi.gov.uk

Mai 2017

Annwyl Mike

Diolch ichi am eich llythyr ynghylch deiseb i gael cerflun i anrhydeddu'r cyn-chwaraewr rygbi cynghrair, Billy Boston. Mewn egwyddor, ni fyddai gennyf unrhyw wrthwynebiad i gerflun gael ei godi i'w anrhydeddu.

Os byddai'r Pwyllgor Deisebau am gefnogi'r cais, mae fy swyddogion sy'n gyfrifol am y Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth wedi nodi y byddent yn fodlon trafod y prosiect â Chlwb Athletau Rhyngwladol Caerdydd (CIACS), er nid oes modd rhoi gwarantau cadarn. Mae'r ddolen isod yn rhoi cyngor a manylion cyswllt priodol y swyddogion perthnasol:-
https://businesswales.gov.wales/dmwales/sites/dmwales/files/documents/Tourism%20Product%20Innovation%20Fund-Guidance%202017-2019%20Welsh%20pdf.pdf

Mae'r Prif Weinidog wedi ymateb i gais tebyg o'r blaen oddi wrth ffynhonnell wahanol. Awgrymodd bryd hynny y dylai'r gohebwyr gysylltu â Chyngor Celfyddydau Cymru (CCC) i drafod y mater. Gan weithio o fewn y fframwaith strategol y mae Llywodraeth Cymru yn ei osod, mae'r Cyngor yn y sefyllfa orau i roi cymorth a chyngor i artistiaid ac i roi grantiau uniongyrchol i unigolion (fel arfer o'i raglenni gyda'r Loteri Genedlaethol) yn ogystal ag i sefydliadau ym maes y celfyddydau.

Dyma fanylion cyswllt y Cyngor:

Cyngor Celfyddydau Cymru,
Plas Bute,
Caerdydd,
CF10 5AL

Ffôn: 0845 8734 900

www.arts.wales
www.arts.wales/what-we-do/funding/apply

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gwefan y Cyngor hefyd yn rhoi gwybodaeth am ffynonellau eraill o gyllid.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth hon o gymorth ichi.

Yn gywir,

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure